

MEMORANDWM CYWIRIADAU YN UNOL Â
RHEOL SEFYDLOG 22.13

MEMORANDUM OF

CORRECTIONS PURSUANT TO STANDING
ORDER 22.13

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
(Gwin) (Cymru) 2001

**The Common Agricultural Policy (Wine)
(Wales) Regulations 2001**

Cefndir

Background

Gosodwyd y Rheoliadau drafft hyn gerbron
Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Mai 2001.
Fe'u hystyriwyd gan y Pwyllgor Busnes ar 1
Mai a chan y Pwyllgor Deddfau ar 8 Mai 2001

These Draft Regulations were laid before the
National Assembly for Wales on 1 May 2001.
They were considered by the Business
Committee on [1 May] 2001 and by the
Legislation Committee on 8 May 2001.

Nodwyd mân wallau teipograffyddol a drafftio
a mân welliannau drafftio gan Gynghorwyr
Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau cyn cyfarfod y
Pwyllgor ac fe gynigir y diwygiadau a
ddangosir o'r herwydd.

Minor typographical and drafting errors and
improvements were noted by the Legal
Advisers to the Legislation Committee before
the Committee's meeting and the changes
shown are proposed in consequence.

Adroddwyd ar y diwygiadau a ddangosir isod
i'r Pwyllgor Deddfau yn ei gyfarfod ar 8 Mai,
ac fe gytunodd iddynt gael eu hystyried gan y
Cynulliad. Dangosir y geiriau a fewnosodwyd
neu a ddilëwyd, ac mae'r manau y gwnaed
newidiadau ynddynt wedi'u marcio â llinell
wrth ymyl y golofn.

The amendments set out below were reported
to the Legislation Committee at its meeting on
the [8 May] and agreed by it for consideration
by the Assembly. Words inserted or removed
are shown, and the location of changes is
marked with a line at the edge of the column.

Paratowyd y ffurf hon ar Femorandwm
Cywiriadau yn dilyn ymgynghoriad rhwng
Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol a Chynghorwyr
Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau. Y bwriad yw
dangos y newidiadau arfaethedig yn eu cyd-
destun, yn hytrach nag ailadrodd yr eglurhad
a geir yn adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol.

This form of Memorandum of Corrections has
been prepared following consultation between
the office of the Counsel General and the
Legal Advisers to the Legislation Committee.
The intention is to show the proposed
changes in context rather than repeat the
explanation contained in the Legal Advisers'
report.

Y gobaith yw y bydd Aelodau'r Cynulliad yn
cael bod y ffurf hon o gymorth yma yn
ddefnyddiol, ond gwahoddir unrhyw sylwadau.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU		NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES
OFFERYNNAU STATUDOL		STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif (Cy.)	2001 No. (W.)
AMAETHYDDIAETH, CYMRU	AGRICULTURE, WALES
Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001	The Common Agricultural Policy (Wine) (Wales) Regulations 2001
<p>NODYN ESBONIADOL</p> <p><i>(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)</i></p>	<p>EXPLANATORY NOTE</p> <p><i>(This note does not form part of the Regulations.)</i></p>
<p>Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001 yn diddymu Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) 1996 O.S. 1996/696 (fel y'i diwygiwyd) i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru. Mae'r Rheoliadau, sy'n dod i rym ar 1 Awst 2001, yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliadau'r CE (fel y'u pennir yn Atodlenni 1 a 2) ynghylch cynhyrchu a marchnata gwin a chynhyrchion cysylltiedig.</p> <p>Mae'r Rheoliadau –</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) yn dynodi awdurdodau at ddibenion gorfodi Rheoliadau'r CE (rheoliad 3); (ii) yn diffinio "medium dry" ("gweddol sych") at ddibenion labelu a disgrifio (rheoliad 4); (iii) yn pennu'r amrywogaethau o winwydd sydd wedi'u dosbarthu ar gyfer cynhyrchu gwin (gan gynnwys gwin o safon psr (wedi'i gynhyrchu mewn rhanbarthau penodedig)) yng Nghymru (rheoliad 5); (iv) yn pennu'r amodau ar gyfer 	<p>The Common Agricultural Policy (Wine) (Wales) Regulations 2001 revoke the Common Agricultural Policy (Wine) Regulations 1996 S.I. 1996/696 (as amended) in so far as they apply to Wales. The Regulations, which come into force on 1st August 2001, provide for the enforcement of EC Regulations (as specified in Schedules 1 and 2) concerned with the production and marketing of wine and related products.</p> <p>The Regulations –</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) designate authorities for the purposes of enforcing the EC Regulations (regulation 3); (ii) define "medium dry" for the purposes of labelling and description (regulation 4); (iii) specify the vine varieties classified for the production of wine (including quality wine psr (produce of a specific region)) in Wales (regulation 5); (iv) specify conditions for the

defnyddio mynegiadau daearyddol i ddynodi gwin i'r bwrdd (rheoliad 6);

(v) yn darparu ar gyfer pwerau archwilio a gorfodi (rheoliad 7);

(vi) yn awdurdodi rheolau ar symud cynhyrchion y sector gwin (rheoliadau 8 a 9);

(vii) yn darparu ar gyfer adolygiadau o waharddiadau etc. ar symud cynhyrchion y sector gwin a hysbysu hawliau er cael adolygiad (rheoliad 10);

(viii) yn rhyddhau swyddogion awdurdodedig o atebolrwydd personol am weithredoedd a gyflawnir ganddynt wrth weithredu'r Rheoliadau (rheoliad 11);

(ix) yn rhoi pwerau mewn perthynas â dadansoddi ac archwilio samplau i lysoedd y dygir achosion ger eu bron (rheoliad 12);

(x) yn pennu'r rhanbarthau yng Nghymru ar gyfer cynhyrchu gwinoedd o safon psr (rheoliad 13);

(xi) yn pennu'r cryfder alcoholaidd naturiol gofynnol, yr uchafswm y gellir ei gynhyrchu am bob hectar a'r

use of geographical indications for the designation of table wine (regulation 6);

(v) provide for powers of inspection and enforcement (regulation 7);

(vi) authorise controls on the movement of wine-sector products (regulations 8 and 9);

(vii) provide for reviews of prohibitions etc. on movement of wine-sector products and notification of rights of review (regulation 10);

(viii) relieve authorised officers of personal liability for acts done by them in execution of the Regulations (regulation 11);

(ix) confer on courts before which proceedings are brought powers in relation to the analysis and examination of samples (regulation 12);

(x) specify the regions in Wales for producing quality wines psr (regulation 13);

(xi) specify the minimum natural alcoholic strength, maximum yield per hectare and analytical test in

prawf
dadansoddol wrth
gynhyrchu gwin o
safon psr ac yn
caniatáu
cynhyrchu gwin
o'r fath mewn
ardaloedd sydd yn
union gyfagos at y
rhanbarthau
penodedig ac yn
dynodi'r corff
cymwys i ymdrin â
gwin o'r fath
(rheoliadau 14 i
18); a

(xii) yn rhagnodi
tramgwyddau a
chosbau ac yn
darparu
amddiffyniadau
(rheoliadau 19 i
23).

Nid oes Arfarniad Rheoliadol wedi'i baratoi
mewn perthynas â'r Rheoliadau.

the production of
quality wine psr
and permit the
production of such
wine in areas of
immediate
proximity to the
specified regions
and designates
the competent
body to deal with
such wine
(regulations 14 to
18); and

(xii) prescribe
offences and
penalties and
provide defences
(regulations 19 to
23).

No Regulatory Appraisal has been prepared
in respect of the Regulations.

**OFFERYNNAU
STATUDOL**

2001 Rhif (Cy.)

**STATUTORY
INSTRUMENTS**

2001 No. (W.)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU	AGRICULTURAL, WALES
Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001	The Common Agricultural Policy (Wine) (Wales) Regulations 2001
<i>Wedi'u gwneud 2001</i> <i>Yn dod i rym 1 Awst 2001</i>	<i>Made 2001</i> <i>Coming into force 1st August 2001</i>
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(a) at ddibenion adran 2 (2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(b) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd a phob per arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol –	The National Assembly for Wales being designated(a) for the purposes of section 2 (2) of the European Communities Act 1972 (b) in relation to the common agricultural policy of the European Community, in exercise of the powers conferred on it by the said section 2(2) and of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Regulations –

RHAN I

TEITL, CYCHWYN, DEHONGLI A DIDDYMU

Teitl, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001, a deuant i rym ar 1 Awst 2001.

Dehongli a diddymu

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall –

mae i "archwilio" yr un ystyr ag "examination" yn adran 28(2) o'r Ddeddf Diogelwch Bwyd(c);

ystyr "awdurdod gorfodi" ("enforcement authority") yw –

(a) y Comisiynwyr neu'r Bwrdd Safonau Gwin;

(b) y Cynulliad Cenedlaethol;

(c) mewn perthynas ag ardal awdurdod lleol, yr awdurdod lleol;

PART I

TITLE, COMMENCEMENT, INTERPRETATION AND REVOCATION

Title, application and commencement

1. These Regulations may be cited as the Common Agricultural Policy (Wine) (Wales) Regulations 2001, and shall come into force on 1st August 2001.

Interpretation and revocation

2.-(1) In these Regulations, unless the context otherwise requires –

"analysis" ("*dadansoddi*") includes microbiological assay and any technique for establishing the composition of food;

"appropriate enforcement authority" ("*awdurdod gorfodi priodol*"), in relation to any part of Wales, means an enforcement authority in relation to that part;

"authorised officer" ("*swyddog awdurdodedig*") means any person (whether or not an officer of that authority) who is authorised for the purposes of these Regulations by an appropriate enforcement authority or

ystyr "awdurdod gorfodi priodol" ("*appropriate enforcement authority*"), mewn perthynas ag unrhyw ran o Gymru, yw awdurdod gorfodi mewn perthynas â'r rhan honno;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") mewn perthynas â sir neu fwrdeistref sirol yw cyngor y sir neu'r fwrdeistref sirol honno;

ystyr "y Bwrdd Safonau Gwin" ("*the Wine Standards Board*") yw Bwrdd Safonau Gwin Cwmni'r Gwinyddion;

ystyr "y Comisiynwyr" ("*the Commissioners*") yw Comisiynwyr y Tollau Tramor a Chartref;

ystyr "cynnyrch sector gwin a reolir" ("*controlled wine-sector product*") yw unrhyw gynnyrch o'r sector gwin y gwaharddwyd ei symud am y tro yn unol â rheoliad 8;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

mae i "Cytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd" ("*the European Economic Area Agreement*") yr un ystyr ag sydd i "*the Agreement*" yn adran 6(1) o Ddeddf yr Ardal Economaidd Ewropeaidd 1993(ch);

mae "dadansoddi" ("*analysis*") yn cynnwys profion microbiolegol ac unrhyw dechneg ar gyfer darganfod cyfansoddiad bwyd;

ystyr "dadansoddydd bwyd" ("*food analyst*") ac "archwilydd bwyd" ("*food examiner*"), mewn perthynas â Chymru, yw person sy'n ddadansoddydd bwyd ac yn archwilydd bwyd, yn ôl fel y digwydd, at ddibenion adran 30 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "darpariaeth Gymunedol" ("*Community provision*") yw unrhyw un o ddarpariaethau unrhyw un o Reoliadau, Penderfyniadau neu Ddeddfau'r Cymunedau Ewropeaidd y cyfeirir ati yn Atodlen 1, neu o'r Cytuniadau sy'n ymwneud â derbyn i'r Cymunedau Ewropeaidd, yn eu tro, Weriniaeth Groeg a lofnodwyd yn Athen ar 28

in relation to any particular provision of these Regulations, any person who is authorised by an appropriate enforcement authority for the purposes of that provision;

"the Commissioners" ("*y Comisiynwyr*") means the Commissioners of Customs and Excise;

"Community provision" ("*darpariaeth Gymunedol*") means any provision of any Regulation, Decision or Act of the European Communities which is referred to in Schedule 1, or of the Treaties relating to the accession to the European Communities, respectively, of the Hellenic Republic signed at Athens on 28th May 1979 (c), of the Kingdom of Spain and the Portuguese Republic signed, respectively, at Madrid and Lisbon on 12th June 1985(d), and of the Kingdom of Sweden, the Republic of Austria and the Republic of Finland signed respectively at Stockholm, Vienna and Helsinki on 24th June 1994(e), and where any such provision has been adapted by the European Economic Area Agreement, includes the adaptation to it effected thereby;

"controlled wine-sector product" ("*cynnyrch sector gwin a reolir*") means any wine-sector product the movement of which is for the time being prohibited pursuant to regulation 8;

"enforcement authority" ("*awdurdod gorfodi*") means –

(a) the Commissioners or the Wine Standards Board;

(b) the National Assembly;

(c) in relation to the area of a local authority, the local authority;

"the European Economic Area Agreement" ("*Cytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd*") has the same meaning as has "the Agreement" in section 6(1) of the European Economic Area Act 1993

Mai 1979(d), Teyrnas Sbaen a Gweriniaeth Portiwgal a Iofnodwyd, yn eu tro, ym Madrid a Lisbon ar 12 Mehefin 1985(dd), a Theyrnas Sweden, Gweriniaeth Awstria a Gweriniaeth y Ffindir a Iofnodwyd yn eu tro yn Stockholm, Vienna a Helsinki ar 24 Mehefin 1994(e), ac os oes unrhyw ddarpariaeth o'r fath wedi'i haddasu gan Gytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, mae'n cynnwys yr addasiad iddi a weithredwyd drwy hynny;

ystyr "darpariaeth Gymunedol berthnasol" ("*relevant Community provision*") yw unrhyw ddarpariaeth Gymunedol y cyfeirir ati yng ngholofn 1 neu golofn 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, y disgrifir ei phwnc yng ngholofn 3 o'r Atodlen honno;

ystyr "gweithgynhyrchu" ("*manufacturing*") yw defnyddio gwin neu gynhyrchion eraill y sector gwin at ddibenion masnach neu fusnes (heblaw busnes arlwy), i gyfansoddi, gweithgynhyrchu neu baratoi unrhyw gynnyrch;

mae i "gwinoedd o safon psr" yr ystyr a roddir i "*quality wines psr*" gan Erthygl 54 o Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999 ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn gwin(f);

ystyr "manwerthu" ("*retail sale*") yw unrhyw werthu i berson sy'n prynu heblaw er mwyn ailwerthu ond nid yw'n cynnwys gwerthu i arlwywr yng nghwrs ei fusnes arlwy nac i weithgynhyrchydd yng nghwrs ei fusnes gweithgynhyrchu;

ystyr "rhanbarthau penodedig" ("*specified regions*") yw'r rhanbarthau a ddiffinnir yn rheoliad 13;

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw unrhyw berson (p'un a yw'n swyddog i'r awdurdod hwnnw neu beidio) sydd wedi'i awdurdodi at ddibenion y Rheoliadau hyn gan awdurdod gorfodi priodol neu mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Rheoliadau hyn, unrhyw

(f);

"examination" ("*archwilio*") has the same meaning as in section 28(2) of the Food Safety Act(g);

"food analyst" ("*dadansoddydd bwyd*") and "food examiner" ("*archwilydd bwyd*") means, in relation to Wales, a person who is a food analyst and a food examiner, as the case may be, for the purposes of section 30 of the Food Safety Act 1990;

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means in respect of a county or county borough, the council of that county or county borough;

"manufacturing" ("*gweithgynhyrchu*") means using wine or other wine-sector products, for the purpose of a trade or business (other than a catering business), in the composition, manufacture or preparation of any product;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"quality wines psr" ("*gwinoedd o safon psr*") has the meaning assigned to it by Article 54 of Council Regulation (EC) 1493/1999 on the common organisation of the market in wine(h);

"relevant Community provision" ("*darpariaeth Gymunedol berthnasol*") means any Community provision referred to in column 1 or column 2 of Schedule 2 to these Regulations, the subject matter of which is described in column 3 thereof;

"retail sale" ("*manwerthu*") means any sale to a person buying otherwise than for the purpose of resale but does not include a sale to a caterer in the course of his or her catering business or to a manufacturer in the course of his or her manufacturing business;

berson sydd wedi'i awdurdodi gan awdurdod gorfodi priodol at ddibenion y ddarpariaeth honno;

ystyr "trydedd wlad" ("*third country*") yw unrhyw wlad neu diriogaeth nad yw'n ffurfio rhan o'r Deyrnas Unigol.

"specified regions" ("*rhanbarthau penodedig*") means the regions defined in regulation 13;

"third country" ("*trydedd wlad*") means any country or territory not forming part of the United Kingdom;

"the Wine Standards Board" ("*y Bwrdd Safonau Gwin*") means the Wine Standards Board of The Vintners' Company.

(2) I'r graddau y mae'r cyd-destun yn caniatáu hynny, mae i'r ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyron ag yn Rheoliad y Cyngor (EC) 1493/1999 ac, mewn perthynas â gwinoedd wedi'u persawru, yn Rheoliad y Cyngor (EEC) 1601/91, fel y'i diwygiwyd, sy'n nodi rheolau cyffredinol ar ddisgrifio a chyflwyno gwinoedd wedi'u persawru, diodydd sydd wedi'u seilio ar winoedd wedi'u persawru a choctêls o gynhyrchion gwin wedi'i bersawru(ff).

(3) Yn y Rheoliadau hyn, rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at reoliad neu Atodlen â rhif fel cyfeiriad at y rheoliad neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn.

(4) Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) 1996(g), Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Diwygio) 1997(ng), Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Diwygio) 1998(h), a Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Diwygio) 1999(i) drwy hyn yn cael eu diddymu i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

(5) Wrth gymhwyso Rhan III o'r Rheoliadau hyn, rhaid darllen Atodlen 3 (i'r graddau y mae'n ymwneud ag amrywogaethau o winwydd ar gyfer darparu gwinoedd o safon psr), ac Atodlenni 4 a 5, y Rhan honno a'r Atodlenni hynny mewn perthynas ag unrhyw win a gynhyrchwyd –

(a) o rawnwin a gynaeafwyd cyn 1 Medi 1993, fel pe bai eu cynnwys yr un fath yn union â'r Rhan gyfatebol o Reoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin

(2) Other expressions used in these Regulations have, in so far as the context admits, the same meanings as in Council Regulation (EC) 1493/1999 and, in relation to aromatized wines, in Council Regulation (EEC) 1601/91, as amended, laying down general rules on the description and presentation of aromatized wines, aromatized wine-based drinks and aromatized wine-product cocktails(i).

(3) In these Regulations any reference to a numbered regulation or Schedule shall be construed as a reference to the regulation or Schedule so numbered in these Regulations.

(4) The Common Agricultural Policy (Wine) Regulations 1996(j), the Common Agricultural Policy (Wine) (Amendment) Regulations 1997(k), the Common Agricultural Policy (Wine) (Amendment) Regulations 1998(l), and the Common Agricultural Policy (Wine) (Amendment) Regulations 1999(m) are hereby revoked in so far as they apply to Wales.

(5) In the application of Part III of these Regulations, Schedule 3 (in so far as it relates to vine varieties for providing quality wines psr), and Schedules 4 and 5, that Part and those Schedules shall be read in relation to any wine produced –

(a) from grapes harvested before 1st September 1993, as if their contents were identical to those of the corresponding Part of, and Schedules to, the

(Gwin) 1993(j) a'r
Atodlenni cyfatebol
iddynt;

(b) o rawnwin a
gynaeafwyd ar neu ar ôl
1 Medi 1993 a chyn 1
Medi 1994, fel pe bai eu
cynnwys yr un fath yn
union â'r Rhan gyfatebol
o Reoliadau'r Polisi
Amaethyddol Cyffredin
(Gwin) 1994(I) a'r
Atodlenni cyfatebol
iddynt;

(c) o rawnwin a
gynaeafwyd ar neu ar ôl
1 Medi 1994 a chyn 1
Medi 1995, fel pe bai eu
cynnwys yr un fath yn
union â'r Rhan gyfatebol
o Reoliadau'r Polisi
Amaethyddol Cyffredin
(Gwin) 1995(II) a'r
Atodlenni cyfatebol
iddynt;

(ch) o rawnwin a
gynaeafwyd ar neu ar ôl
1 Medi 1995 a chyn 1
Medi 1999, fel pe bai eu
cynnwys yr un fath yn
union â'r Rhan gyfatebol
o Reoliadau'r Polisi
Amaethyddol Cyffredin
(Gwin) 1996 a'r Atodlenni
cyfatebol iddynt.

Common Agricultural
Policy (Wine)
Regulations 1993(n);

(b) from grapes
harvested on or after
1st September 1993
and before 1st
September 1994, as if
their contents were
identical to those of the
corresponding Part of,
and Schedules to, the
Common Agricultural
Policy (Wine)
Regulations 1994(o);

(c) from grapes
harvested on or after
1st September 1994
and before 1st
September 1995, as if
their contents were
identical to those of the
corresponding Part of,
and Schedules to, the
Common Agricultural
Policy (Wine)
Regulations 1995(p);

(d) from grapes
harvested on or after
1st September 1995
and before 1st
September 1999, as if
their contents were
identical to those of the
corresponding Part of,
and Schedules to, the
Common Agricultural
Policy (Wine)
Regulations 1996.

RHAN II

PART II

DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

GENERAL PROVISIONS

Swyddogaethau swyddogol a gorfodi

Official functions and enforcement

3.-(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r rheoliad hwn, mae'r awdurdodau lleol, y Cynulliad Cenedlaethol, y Comisiynwyr a'r Bwrdd Safonau Gwin drwy hyn yn cael eu dynodi fel yr awdurdodau sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â'r darpariaethau Cymunedol.

3.-(1) Subject to the provisions of this regulation, local authorities, the National Assembly, the Commissioners and the Wine Standards Board are hereby designated as the authorities responsible for ensuring compliance with the Community provisions.

(2) Rhaid i bob awdurdod lleol sicrhau bod y darpariaethau Cymunedol perthnasol yn cael eu gorfodi a'u gweithredu i'r graddau y maent yn ymwneud â manwerthu cynhyrchion yn ei ardal.

(3) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, y Comisiynwyr a'r Bwrdd Safonau Gwin sicrhau bod y darpariaethau Cymunedol perthnasol yn cael eu gorfodi a'u gweithredu i'r graddau y maent yn ymwneud â mewnfario unrhyw un o gynhyrchion y sector gwin i Gymru o drydedd wlad neu ei allforio o Gymru i drydedd wlad.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Bwrdd Safonau Gwin sicrhau bod y darpariaethau Cymunedol perthnasol yn cael eu gorfodi a'u gweithredu i'r graddau y maent yn ymwneud ag unrhyw fater sydd heb ei grybwyll ym mharagraffau (2) neu (3) uchod.

(5) Rhaid peidio â chymryd dim yn y rheoliad hwn fel pe bai'n awdurdodi'r Bwrdd Safonau Gwin neu'r Comisiynwyr i ddwyn achos ynglŷn â thramgwydd.

(2) Each local authority shall secure the enforcement and execution of the relevant Community provisions in so far as they relate to the retail sale of products within its area.

(3) The National Assembly, the Commissioners and the Wine Standards Board shall secure the enforcement and execution of the relevant Community provisions in so far as they relate to the importation and exportation of any wine-sector product into Wales from a third country or from Wales to a third country.

(4) The National Assembly and the Wine Standards Board shall secure the enforcement and execution of the relevant Community provisions in so far as they relate to any matter not mentioned in paragraphs (2) or (3) above.

(5) Nothing in this regulation shall be taken as authorising the Wine Standards Board or the Commissioners to institute proceedings for an offence.

Diffinio "medium dry"

4. At ddibenion Erthygl 14(7)(b) o Reoliad y Comisiwn (EEC) 3201/90, fel y'i diwygiwyd, sy'n nodi rheolau manwl ar gyfer disgrifio a chyflwyno gwinoedd a mystau grawnwin(**m**), gall gwin gael ei labelu a'i ddisgrifio fel "*medium dry*" os oes iddo gynnwys siwgr gweddilliol nad yw'n fwy na 18 gram am bob litr pan nad yw cyfanswm cynnwys asidedd y gwin hwnnw, o'i fynegi fel gramau o asid tartarig am bob litr, yn fwy na 10 gram am bob litr islaw ei gynnwys siwgr gweddilliol.

Amrywogaethau o winwydd

5. At ddibenion Erthygl 19(1) a (2) o Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999 ac Erthygl 20 o Reoliad y Comisiwn (EC) 1227/2000 sy'n nodi rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor 1493/1999 ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn gwin, o ran y potensial ar gyfer cynhyrchu(**n**), yr amrywogaethau o winwydd sydd wedi'u dosbarthu ar gyfer cynhyrchu gwin yng Nghymru yw'r rhai a bennir yn Atodlen 3, ac ymhlith y rheiny mae'r rhai na chaniateir mohonynt ar gyfer cynhyrchu gwin o safon psr yn y rhanbarthau penodedig wedi'u dynodi â seren.

Definition of medium dry

4. For the purposes of Article 14(7)(b) of Commission Regulation (EEC) 3201/90, as amended, laying down detailed rules for the description and presentation of wines and grape musts(**q**), wine may be labelled and described as "medium dry" if it has a residual sugar content not exceeding 18 grams per litre where the total acidity content of that wine expressed as grams of tartaric acid per litre is not more than 10 grams per litre below its residual sugar content.

Vine varieties

5. For the purposes of Article 19(1) and (2) of Council Regulation (EC) 1493/1999 and Article 20 of Commission Regulation (EC) 1227/2000 laying down detailed rules for the application of Council Regulation 1493/1999 on the common organisation of the market in wine, as regards production potential(**r**), the vine varieties classified for the production of wine in Wales are those specified in Schedule 3, amongst which those that are not permitted for the production of quality wines psr in the specified regions are indicated by an asterisk.

Mynegiadau daearyddol ar gyfer gwin i'r bwrdd

6.-(1) Yn unol ag Erthygl 51(3) o Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999, mae defnyddio mynegiad daearyddol i ddynodi gwin i'r bwrdd sydd wedi'i gynhyrchu mewn unrhyw ran o Gymru wedi'i wahardd oni bai bod y gwin bwrdd hwnnw wedi'i gynhyrchu –

(a) yn gyfan gwbl o un neu ragor o'r amrywogaethau o winwydd a bennir yn Atodlen 3, a

(b) o rawnwin sydd wedi'u cynaeafu yn yr uned ddaearyddol y defnyddir ei henw i ddynodi'r gwin bwrdd hwnnw yn unig.

(2) Er gwaethaf paragraff (1)(b) uchod, gall mynegiad daearyddol gael ei ddefnyddio i ddynodi gwin bwrdd a geir drwy gyfuno gwinoedd fel y'i caniateir gan Erthygl 51(2) o Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999 a enwyd.

(3) Ym mharagraff (1)(b) uchod ystyr "uned ddaearyddol" yw ardal y mae ei ffiniau wedi'u nodi'n fanwl gywir sydd –

(a) yn rhan o Gymru; a

(b) yn dod o fewn y diffiniad o "*geographical unit which is smaller than the Member State*" yn Erthygl 51(1) o Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999 a enwyd.

(4) Yn ddarostyngedig i Bwynt A, paragraff 2 o Atodiad VII i Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999, rhaid peidio â defnyddio unrhyw fynegiad daearyddol heblaw enw uned ddaearyddol fel y'i pennir yn y rheoliad hwn wrth labelu neu wrth hysbysebu gwin i'r bwrdd a gynhyrchir mewn unrhyw ran o Gymru.

Pwerau swyddogion awdurdodedig

Geographical indications for table wine

6.-(1) In pursuance of Article 51(3) of Council Regulation (EC) 1493/1999, the use of a geographical indication for the designation of table wine produced in any part of Wales is prohibited unless that table wine is produced –

(a) wholly from one or more of the varieties of vine specified in Schedule 3, and

(b) exclusively from grapes harvested in the geographical unit the name of which is used for the designation of that table wine.

(2) Notwithstanding paragraph (1)(b) above, a geographical indication may be used to designate a table wine obtained by the coupage of wines as permitted by Article 51(2) of the said Council Regulation (EC) 1493/1999.

(3) In paragraph (1)(b) above "geographical unit" means a precisely demarcated area which –

(a) is a part of Wales; and

(b) falls within the definition of a "geographical unit which is smaller than the Member State" in Article 51(1) of the said Council Regulation (EC) 1493/1999.

(4) Subject to Point A, paragraph 2 of Annex VII to the said Council Regulation (EC) 1493/1999 no geographical indication other than the name of a geographical unit as specified in this regulation shall be used on the labelling or advertising of a table wine produced in any part of Wales.

Powers of authorised officers

7.-(1) Ar ôl cyflwyno rhyw ddogfen sydd wedi'i dilysu'n briodol ac sy'n dangos ei awdurdod, os gofynnir iddo wneud hynny, caiff swyddog awdurdodedig fynd ar unrhyw adeg resymol i unrhyw dir neu gerbyd (heblaw unrhyw dir neu gerbyd sy'n cael eu defnyddio yn annedd yn unig), er mwyn darganfod a oes unrhyw dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn cael neu wedi cael ei gyflawni neu a oes unrhyw dramgwydd o dan Reoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) 1993, 1994, 1995 neu 1996 wedi'i gyflawni.

(2) Caiff swyddog awdurdodedig sydd wedi mynd i unrhyw dir neu gerbyd yn unol â pharagraff (1) uchod, at y diben a bennir yn y paragraff hwnnw neu er mwyn sicrhau tystiolaeth o unrhyw dramgwydd o'r fath y mae ganddo reswm dros gredu ei fod yn cael ei gyflawni, y gall fod yn cael ei gyflawni, neu ei fod wedi'i gyflawni neu y gall fod wedi'i gyflawni –

(a) archwilio unrhyw ddeunyddiau neu eitemau y deuir o hyd iddynt yn y tir neu'r cerbyd hwnnw neu arnynt;

(b) yn ddarostyngedig i baragraff (5) isod, archwilio unrhyw gofrestr, cofnod neu ddogfen briodol –

(i) y mae'n ofynnol i unrhyw berson eu cadw o dan unrhyw ddarpariaeth Gymunedol berthnasol, neu

(ii) sydd ym meddiant neu o dan reolaeth unrhyw berson,

a chaiff gymryd copïau o unrhyw gofrestr, cofnod neu ddogfen o'r fath, neu o unrhyw eitem mewn unrhyw gofrestr, cofnod neu ddogfen o'r fath ac os oes unrhyw gofrestr,

7.-(1) An authorised officer may, on producing, if so required, some duly authenticated document showing his or her authority, at any reasonable time enter any land or vehicle (other than any land or a vehicle used solely as a dwelling), for the purpose of ascertaining whether any offence under these Regulations has been or is being committed or whether any offence under the Common Agricultural Policy (Wine) Regulations 1993, 1994, 1995 or 1996 has been committed.

(2) An authorised officer who has entered any land or vehicle in accordance with paragraph (1) above may, for the purpose specified in that paragraph or for the purpose of securing evidence of any such offence which he or she has reason to believe is or may be being, or has been or may have been, committed –

(a) inspect any materials or articles found in or on that land or vehicle;

(b) subject to paragraph (5) below, examine any register, record or appropriate document –

(i) which any person is required to keep under any relevant Community provision, or

(ii) which is in the possession or under the control of any person,

and may take copies of any such register, record or document, or of any entry in any such register, record or document and where any such register,

cofnod neu ddogfen o'r fath yn cael eu cadw drwy gyfrwng cyfrifiadur, caiff fynd at unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw offer neu ddeunyddiau cysylltiedig sy'n cael neu sydd wedi cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r gofrestr honno, y cofnod hwnnw neu'r ddogfen honno, a'u harchwilio ac edrych i weld sut y maent yn gweithio, a'i gwneud yn ofynnol i gofrestr, cofnod, dogfen neu eitem o'r fath gael eu cyflwyno mewn ffurf a all gael ei chymryd i ffwrdd;

(c) yn ddarostyngedig i baragraff (5) isod, cipio a chadw unrhyw gofrestr, cofnod, dogfen neu eitem o'r fath y mae ganddo reswm dros gredu y gall fod eu hangen fel tystiolaeth mewn achos o dan y Rheoliadau hyn;

(ch) llunio rhestr o gynhyrchion ac o unrhyw beth a all gael ei ddefnyddio i baratoi cynhyrchion; a

(d) prynu unrhyw gynnyrch ac unrhyw beth a all gael eu defnyddio i baratoi unrhyw gynnyrch neu gymryd samplau ohonynt.

(3) Caiff swyddog awdurdodedig sydd wedi sicrhau sampl o unrhyw gynnyrch ddadansoddi neu archwilio'r sampl honno neu drefnu ei dadansoddi neu ei harchwilio.

(4) Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i unrhyw dir neu gerbyd yn rhinwedd y rheoliad hwn fynd ag unrhyw bersonau eraill gydag ef y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol.

record or document is kept by means of a computer, have access to, and inspect the operation of, any computer and any associated apparatus or material which is or has been in use in connection with that register, record or document and require such register, record, document or entry to be produced in a form in which it may be taken away;

(c) subject to paragraph (5) below, seize and retain any such register, record, document or entry which he or she has reason to believe may be required as evidence in proceedings under these Regulations;

(d) undertake an inventory of products and of anything which may be used in the preparation of products; and

(e) purchase or take samples of any product and of anything which may be used for the preparation of any product.

(3) An authorised officer who has procured a sample of any product may analyse or examine that sample or have that sample analysed or examined.

(4) An authorised officer entering any land or vehicle by virtue of this regulation may take with him or her such other persons as he or she considers necessary.

(5) Ni fydd gan swyddog awdurdodedig hawl o dan baragraff (2)(b) neu (c) uchod i archwilio, copïo, cipio neu gadw unrhyw gofnod neu ddogfen i'r graddau y mae'r cofnod neu'r ddogfen -

(a) yn eitem sy'n destun braint gyfreithiol o fewn ystyr adran 10 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 **(o)**,

(b) yn ddeunydd eithriedig o fewn ystyr adran 11 o'r Ddeddf honno, neu

(c) yn ddeunydd gweithdrefn arbennig o fewn ystyr adran 14 o'r Ddeddf honno.

(5) An authorised officer shall not be entitled under paragraph (2)(b) or (c) above to examine, copy, seize or retain any record or document so far as it comprises-

(a) an item subject to legal privilege within the meaning of section 10 of the Police and Criminal Evidence Act 1984**(s)**,

(b) excluded material within the meaning of section 11 of that Act, or

(c) special procedure material within the meaning of section 14 of that Act.

Rheoli symud

8.-(1) Pan fydd swyddog awdurdodedig yn archwilio unrhyw gynnyrch sector gwin, caiff wahardd ei symud os oes ganddo reswm dros gredu bod tramgwydd wedi'i gyflawni, wrthi'n cael ei gyflawni neu'n debyg o gael ei gyflawni mewn perthynas ag ef drwy dorri unrhyw ddarpariaeth Gymunedol berthnasol y cyfeirir ati yng nghlofnau 1 neu 2 o Ran I, II, III, V neu IX o Atodlen 2, neu drwy fethu â chydymffurfio â hi, a bod yna risg neu ei bod yn debyg y bydd yna risg i iechyd y cyhoedd mewn perthynas â'r cynnyrch hwnnw neu fod y cynnyrch hwnnw wedi'i drin yn dwyllodrus neu'n debyg o gael ei drin yn dwyllodrus.

(2) Rhaid i swyddog sy'n arfer y pŵer a roddir gan baragraff (1) uchod, heb oedi, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person y mae'n ymddangos iddo ei fod â gofal y cynnyrch sector gwin o dan sylw –

(a) yn pennu'r cynnyrch sector gwin y mae'r pŵer wedi'i arfer mewn perthynas ag ef;

(b) yn datgan na ellir symud y cynnyrch sector gwin heb gydsyniad ysgrifenedig swyddog awdurdodedig;

(c) yn pennu'r ddarpariaeth

Control on movement

8.-(1) Where an authorised officer inspects any wine-sector product he or she may prohibit its being moved if he or she has reason to believe that an offence has been, is being or is likely to be committed in respect of it by contravention of, or failure to comply with, any relevant Community provision referred to in columns 1 or 2 of Part I, II, III, V or IX of Schedule 2 and that there is or is likely to be a risk to public health in relation to that product or there has been or is likely to be any fraudulent treatment of that product.

(2) An officer who exercises the power conferred by paragraph (1) above shall, without delay, give to the person who appears to him or her to be in charge of the wine-sector product concerned notice in writing –

(a) specifying the wine-sector product in relation to which the power has been exercised;

(b) stating that the wine-sector product may not be moved without the written consent of an authorised officer;

Gymunedol y mae ganddo reswm dros gredu bod tramgwydd wedi'i gyflawni, wrthi'n cael ei gyflawni neu'n debyg o gael ei gyflawni mewn perthynas â hi; ac

(ch) yn pennu a yw o'r farn y byddai'n ymarferol cymryd camau i'w berswadio nad oes ganddo reswm dros y gred honno mwyach ac, os felly, beth ddylai'r camau hynny fod.

(c) specifying the Community provision in respect of which he or she has reason to believe that an offence has been, is being or is likely to be committed; and

(d) specifying whether he or she considers that it would be practicable for steps to be taken to persuade him or her that he or she no longer has reason for that belief and, if so, what those steps should be.

(3) Pan fydd hysbysiad a ddisgrifir ym mharagraff (2) uchod yn cael ei roi gan swyddog awdurdodedig o'r Bwrdd Safonau Gwin, rhaid i'r hysbysiad hwnnw gynnwys gwybodaeth hefyd am hawl y derbynnydd, a roddir gan reoliad 10, i gael adolygu rhoi'r hysbysiad hwnnw, ac ynghylch sut y gellir arfer yr hawl honno, ac effaith arfer yr hawl honno.

(4) Os nad yw'n ymddangos i'r swyddog mai'r person y mae'n rhoi'r hysbysiad iddo yw perchennog y cynnyrch sector gwin o dan sylw nac ychwaith ei fod yn asiant, yn gontractiwr neu'n gyflogai i'r perchennog, rhaid i'r swyddog wneud ei orau glas i dynnu sylw person o'r fath at gynnwys yr hysbysiad hefyd cyn gynted â phosibl.

(5) Caiff swyddog awdurdodedig osod labeli sy'n rhybuddio bod y pŵer wedi'i arfer ar unrhyw gynnyrch sector gwin y mae'r pŵer a roddir gan baragraff(1) uchod wedi'i arfer mewn perthynas ag ef, neu ar unrhyw gynhwysydd y mae'r cynnyrch sector gwin wedi'i bacio ynddo.

(6) Rhaid i swyddog awdurdodedig sydd wedi'i fodloni bod y camau a bennir yn yr hysbysiad o dan baragraff 2(ch) uchod wedi'u cymryd ddileu'r gwaharddiad ar symud a roddwyd yn unol â pharagraff (1) uchod ar unwaith.

(3) Where a notice described in paragraph (2) above is given by an authorised officer of the Wine Standards Board that notice shall also contain information of the recipient's right, conferred by regulation 10, to have the giving of that notice reviewed, and as to how that right may be exercised, and of the effect of exercising that right.

(4) If the person to whom the officer gives the notice does not appear to him or her to be the owner of the wine-sector product concerned or an agent, contractor or employee of the owner, the officer shall use his or her best endeavours to bring the contents of the notice additionally to the attention of such a person as soon as possible.

